IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 2 HYDREF 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Ford a/ac Jacobsen |

7 : PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Bob Derbyshire yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Frank Jacobsen a'i secondio gan y Cynghorydd Lisa Ford.

8 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

9 : CAIS AM DDYFARNU TRWYDDED SAFLE - CAFFI METCHY’S, 1 TERAS CATHAYS

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Unvar Hospitality Ltd. |
| Personau Eraill â Diddordeb: | Y Cynghorydd Sarah Merry |

Y Cais

Derbyniwyd cais am Ddyfarnu Trwydded Safle gan Unvar Hospitality Limited mewn perthynas â Chaffi Metchy, 1 Teras Cathays, Cathays, Caerdydd, CF24 4HS.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â’r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Gwerthu alcohol i’w yfed ar y safle

(2) Disgrifiad o’r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Mae'r busnes mewn safle annibynnol ar Deras Cathays ac mae ganddo'r gallu i ddal 40 i 50 o gwsmeriaid ar unrhyw un adeg. Mae'r busnes ar hyn o bryd yn gweithredu fel caffeteria rhwng 8am a 7pm, saith diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, mae gennym gyfle i ymestyn ein horiau agor i 10pm yn unol â'n cytundeb trwydded, byddai hyn yn cefnogi ein busnes i wrthsefyll canlyniadau COVID 19 yn ariannol a gobeithiwn y bydd yn arwain at dwf. Ar ôl ystyried hyn, teimlwn y byddai cwsmeriaid wrth werthu alcohol ar y safle yn unig yn cefnogi hyn. Bydd bwyd yn parhau i gael ei weini felly, ni fydd y busnes yn aros ar agor at ddiben gwerthu alcohol yn unig".

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i’r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy’n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

Dydd Llun i Ddydd Sul 08:00 i 22:00

(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

Ddydd Llun i ddydd Sadwrn: 11:00 i 22:00 o’r gloch
Dydd Sul: 12:00 i 22:00 o’r gloch

Sylwadau’r Ymgeisydd

Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cymryd drosodd y safle a'i adnewyddu. Roeddent wedi gofyn am agoriad estynedig rhwng 8am a 10pm ac roeddent ar agor o 7am tan 8pm ar hyn o bryd. Maent am ehangu'r busnes a bod ar agor i bob myfyriwr, gweithiwr proffesiynol a thrigolion yn yr ardal tan 10pm, byddai hyn yn helpu'r busnes yn ystod y pandemig. Dywedodd yr Ymgeisydd y bu newid cwsmeriaid ers iddo gymryd drosodd y busnes; hefyd ni fu unrhyw achosion o graffiti, delio â chyffuriau nac ymddygiad gwrthgymdeithasol ers gosod teledu cylch cyfyng ar y safle. Roedd y safle'n gweini bwyd yn bennaf, nid oedd yfed wrth sefyll. Mae Mr Unvar wedi bod yn ddeiliad trwydded ers blynyddoedd lawer, roedd yn brofiadol iawn ac wedi rhedeg safleoedd amrywiol ledled Canol Dinas Caerdydd ac ardal y Bae. Dywedodd yr ymgeisydd mai dim ond tan 10pm y caniatawyd i'r safle hwn agor yn ystod y pandemig, na fyddai'r safle hwn yn stop olaf i fyfyrwyr yfed.

Dywedodd yr Ymgeiswyr wrth Aelodau'r Is-bwyllgor eu bod wedi caniatáu i drigolion lleol gael mynediad i'w teledu cylch cyfyng pan fu problemau yn yr ardal. Nid oes gan y safle unrhyw gymdogion uniongyrchol felly nid oes niwsans sŵn; mae'r cais yn ymwneud mwy â thyfu'r busnes a chefnogi'r bobl o'u cwmpas. Dywedodd yr Ymgeisydd y byddent yn fodlon ystyried unrhyw awgrymiadau a wnaed.

Gofynnodd yr Aelodau am storio alcohol ac fe'u cynghorwyd y byddai stoc gyfyngedig iawn gan mai bwydlen alcohol syml iawn oedd y cynnig i'w gweini ochr yn ochr â bwyd. Roedd yr Ymgeisydd yn ystyried newid cynllun y bar a chael oergelloedd o dan y bar i'w storio.

Sylwadau Unigolion Eraill

Bu'r Cynghorydd Merry yn annerch yr Is-bwyllgor a oedd yn siarad ar ran trigolion lleol a Jo Seaman yn benodol. Dywedodd y Cynghorydd Merry fod llawer o drigolion lleol yn oedrannus ac nad oedd ganddynt fynediad at y dechnoleg i gymryd rhan yn y cyfarfod ac roeddent wedi gofyn am ohirio'r eitem i'w hystyried hyd nes y gellid cynnal cyfarfod yn bersonol.

Dywedodd y Cynghorydd Merry fod nifer o safleoedd trwyddedig yn yr ardal; stryd breswyl yw Teras Cathays a thros y flwyddyn ddiwethaf bu cynnydd mewn bwytai gyda thrwyddedau tan yn hwyr gyda'r nos ac mae wedi newid cymeriad yr ardal. Mae llawer o breswylwyr yn rhai hirsefydlog ac wedi dioddef cyfres o broblemau yn yr ardal ac o'r farn bod y safle trwyddedig ychwanegol hwn yn bryder.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod trigolion lleol wedi dechrau defnyddio'r caffi, bu gostyngiad mewn problemau ers gosod teledu cylch cyfyng a chan mai dim ond tan 10pm y byddai'r safle'n agor, yn bennaf i gael diod gyda rhywfaint o fwyd, ni fyddent

yn gadael pobl feddw i mewn i'r caffi nac yn caniatáu i bobl yfed gormod.  Mae gan yr ymgeisydd brofiad helaeth o ddelio â materion fel y rhain ac ni fyddent am gael effaith negyddol ar y trigolion a'r cwsmeriaid lleol.

I grynhoi

Roedd yr Ymgeisydd o'r farn bod y safle, ers ei adnewyddu a gosod teledu cylch cyfyng, wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ardal.   Y preswylydd agosaf i'r safle yw'r person mwyaf cefnogol ac yn gwsmer; ardal myfyrwyr yw hon a bydd y busnes yn dod â mwy o fusnes i'r economi leol.  Mae llawer o eiddo ar rent hefyd yn ystod digwyddiadau a chyfnewidiadau tramor ac mae llawer o bobl wedi defnyddio'r caffi fel canolfan i gwrdd â phobl.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ganiatáu'r cais.

PENDERFYNWYD:  Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, CYMERADWYODD yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru.

10 : CAIS AM DDYFARNU TRWYDDED SAFLE - UNI KITCHEN, HEOL Y GOGLEDD

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Dr Tamar El Saeed.  Cairo Nights Ltd. |
| Personau Eraill â Diddordeb: | Y Cynghorydd Ashley Wood (Cynghorydd Ward) |
| | Mr Stephen Brinkworth (preswylydd lleol)<br>Tomos Jenkins (Rheoli Llygredd) |

Y Cais

Derbyniwyd cais am Ddyfarnu Trwydded Safle gan Cairo Nights Ltd mewn perthynas ag Uni Kitchen, 140-142 Heol y Gogledd, Caerdydd, CF14 3BH.

1Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle

(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiad dawns ac unrhyw beth tebyg (dan do):

(iii) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do ac awyr agored)

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

Siop goffi yn bennaf yn ystod y dydd a bar gyda'r nos, i gynnig detholiad o fwydydd a diodydd poeth ac oer yn ogystal â detholiad o ddiodydd alcoholig drwy'r dydd.

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.

i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

Dydd Sul – Dydd Iau 07:00 tan 23:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 07:00 tan 00:30

ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw (dan do):

Dydd Llun i ddydd Sul: 08:00 tan 23:00 (heb fod yn drwyddedadwy mwyach)

iii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiad dawns ac unrhyw beth tebyg (dan do):

Dydd Sul i ddydd Iau: 08:00 tan 23:00 (heb fod yn drwyddedadwy mwyach)
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 23:00 tan 00:30

iv) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do ac yn yr awyr agored):

Dydd Sul – Dydd Iau 23:00 tan 00:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 23:00 tan 00:30

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Dywedodd yr Ymgeisydd wrth yr Is-bwyllgor ei fod wedi adnewyddu'r safle a'i fod yn barod i ddechrau masnachu ym mis Gorffennaf. Roedd y safle wedi bod yn farchnad fach o'r blaen ac wedi'i gau am ddwy flynedd. Roedd yr eiddo wedi'i adael mewn cyflwr gwael ac roedd yr Ymgeisydd wedi gorfod codi lloriau, ail-gysylltu'r trydan a chwblhau gwaith adnewyddu'r eiddo'n llwyr. Roedd y cais cychwynnol ar gyfer siop goffi fesul dydd a bar Shisha gyda'r nos. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cynnal ymchwil i'r farchnad cyn iddo agor, ei fod wedi byw yn yr ardal ers pum mlynedd ac mae'n defnyddio'r siopau a chyfleusterau lleol. Roedd yn bwriadu agor rhwng 8am a 5pm gan werthu coffi a phrydau bwyd gan ddechrau gyda bwydlen fach, gan fod pobl wedi torri'n ôl ar eitemau fel cacennau a byrbrydau yn ystod y pandemig felly mae'r fwydlen wedi newid i brydau poeth yn bennaf i ateb y galw. Dywedodd fod llawer o bobl yn fodlon cael y busnes yn yr ardal a bod y safle wedi'i lanhau. Esboniodd yr Ymgeisydd fod alcohol yn cael ei werthu yn ystod y dydd yn unig er mwyn rhoi dewis i bobl gael gwydraid o win gyda'u pryd bwyd neu joch yn eu coffi gan ei fod wedi sylwi, wrth i'r busnes gynyddu, y bu cynnydd yn nifer y ceisiadau am alcohol. Dywedodd mai dim ond ers tri mis yr oedd wedi bod yn masnachu, ond yr oedd busnes yn codi hyd yn oed yn ystod y pandemig gan fod pobl yn aros yn yr

ardaloedd lleol yn hytrach na theithio i'r dref. Ychwanegodd fod y dafarn gyferbyn yn gynnig cwbl wahanol, roedd o'r farn y byddai ei safle'n ychwanegu at yr ardal a byddai'n gallu ennill cwsmeriaid a goroesi'r pandemig. Byddai'r cynnig alcohol yn gyfyngedig, dim cwrw drafftiau, dim ond poteli, ychydig o winoedd a gwirodydd; mae storio alcohol eisoes ar y safle.

Ychwanegodd yr Ymgeisydd ei fod wedi gofyn am agoriad i 3am i ddechrau ond ar ôl siarad â Heddlu De Cymru a'r tîm cynllunio fe'i newidiodd yn hapus i 12.30am ar benwythnosau ac 11.00pm ar ddyddiau'r wythnos. Roedd yn bwriadu agor rhwng 8am a 5pm fel bar coffi, yna cau ac ailagor o 6/7.00pm tan 12/12.30am fel bar. Roedd yn deall bod gan rai preswylwyr bryderon a'i fod yn deall y rhain, pwysleisiodd mai dim ond ar brydiau y byddai'r cais am adloniant byw/wedi'i reoleiddio yn digwydd, ond y gwnaed cais amdano fel safon.

Gofynnodd yr Aelodau o ran gwaith gwrth-sain ac esboniodd yr Ymgeisydd nad yw'r safle wedi'i ddiogelu'n gadarn hyd yma ond y byddai'n hapus i gymryd cyngor yr awdurdodau priodol pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu.

Gofynnodd yr Aelodau am staff drws Awdurdod y Diwydiant Diogelwch a dywedodd yr Ymgeisydd fod hwn yn ofyniad cyfreithiol os yw'r capasiti dros 50; mae gan y safle hwn y capasiti ar gyfer 45-50 ond er diogelwch cwsmeriaid, preswylwyr a staff bydd 1 aelod o staff drws ADD bob amser ar ddyletswydd.

Nododd yr Aelodau fod yr Ymgeisydd wedi datgan y pandemig presennol yn ei anerchiad i'r Is-bwyllgor, ond pwysleisiodd pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu y byddai ar gyfer y tymor hir. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn ystyried y pandemig ond yn gyffredinol byddai'r safle'n dda i drigolion lleol ac yn gwella'r ardal yn y tymor hir hefyd. Ychwanegodd nad oedd llawer o opsiynau ar gyfer y myfyrwyr a'r preswylwyr a rhoddodd hyn fwy o ddewis iddynt, roedd hwn yn opsiwn newydd gyda chynnig gwledig/penigamp wedi'i gyfoethogi. Byddai teledu cylch cyfyng yn y safle, byddai'r Ymgeisydd yn helpu i fonitro a mynd i'r afael â sbwriel i wella delwedd yr ardal.

<u>Sylwadau Unigolion Eraill</u>

Rhoddodd y Cynghorydd Wood anerchiad i'r Is-bwyllgor a chroesawodd fod yr Ymgeisydd wedi derbyn amodau Heddlu De Cymru. Fodd bynnag, roedd yn dal i bryderu nad oedd yr amcanion trwyddedu'n cael eu cyflawni gan mai ychydig o wybodaeth oedd yn y cais am sut y byddent yn cael eu bodloni. Prif bryder y Cynghorydd Woods oedd niwsans cyhoeddus, cerddoriaeth fyw y tu hwnt i 11pm a dim gwaith gwrth-sain. Roedd preswylwyr gerllaw, fflatiau uwchben ac o amgylch y safle a fyddai'n dioddef effaith uniongyrchol gan sŵn o'r safle a hefyd sŵn anuniongyrchol gan bobl sy'n gadael y safle ac yn aros yn yr ardal ar ôl yr amser cau. Roedd y Cynghorydd Wood o'r farn y dylai fod terfyn ar weini alcohol am 11pm ac roedd yn gwrthwynebu cerddoriaeth fyw / wedi'i recordio. Roedd hefyd yn pryderu am sbwriel, casgliadau poteli gwydr, sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; roedd pobl agored i niwed yn byw yn yr ardal a oedd yn pryderu am y materion hyn. Roedd y Cynghorydd Wood hefyd yn pryderu bod Ysgol Uwchradd Cathays yn gyfagos a bod mater rheoli pobl feddw yn ystod y dydd. Nododd fod yr Ymgeisydd yn dweud mai siop goffi ydyw ond roedd o'r farn bod y cais gwreiddiol fel clwb nos, roedd yn croesawu'r newid ond ei fod am gael sicrwydd na fyddai'n newid eto pe bai'n cael ei ganiatáu.

Rhoddodd Mr Stephen Brinkworth anerchiad i'r Is-bwyllgor gan ddweud bod y safle'n adeilad preswyl a'i fod yn anaddas ar gyfer cerddoriaeth uchel ar unrhyw adeg, ychwanegodd fod y preswylwyr yno yn gyntaf. Roedd yn deall bod angen i'r cynllun busnes fod yn hyblyg ond roedd problem diogelwch y cyhoedd gyda phlant yr ysgol eisoes yn sefyll ar y palmant y tu allan i'r safle a phobl yn gorfod camu o'u cwmpas i'r brif ffordd. Ychwanegodd fod y cais gwreiddiol ar gyfer bar Shisha a oedd hefyd yn annog ysmygu.

Sylwadau’r Awdurdod Cyfrifol

Rhoddodd Tomos Jenkins anerchiad i'r Is-bwyllgor gan ddweud mai dyna oedd y cais gwreiddiol am 3am, ond nad yw'r cais diwygiedig yn cael ei gefnogi o hyd oherwydd niwsans cyhoeddus; roedd o'r farn bod gwaith gwrth-sain yn hanfodol i liniaru unrhyw sŵn hwyr yn y nos; byddai am gael cefnogaeth gref gan ymgynghorydd sŵn i gael ei fodloni. Ychwanegodd, os caiff y cais ei gymeradwyo, na fyddai unrhyw rwymedigaeth i osod gwaith gwrth-sain ac y byddai'n anodd ei wirio. O ran sŵn pobl, roedd o'r farn bod hyn yn rhoi mwy o bwysau ar yr Heddlu a Rheoli Llygredd i reoli, ymateb ac ymdrin â chwynion; y mwyaf o safleoedd trwyddedig, y mwyaf o bwysau ac effaith ar breswylwyr gerllaw. Roedd o'r farn ei bod yn cymryd rheolaeth gadarn ar safle i liniaru hyn. Gan gyfeirio at gasgliadau poteli, dywedodd fod hyn yn swnllyd iawn a byddai wedi disgwyl i'r cais ddatgan sut y byddai hyn yn cael ei reoli. Roedd yn bwysig edrych y tu hwnt i'r pandemig ond ar hyn o bryd mae mwy o bobl yn diogelu cartref neu'n gweithio gartref a fydd yn profi'r aflonyddwch sŵn hwn.

Eglurodd y Swyddog Trwyddedu fod y cais gwreiddiol ar gyfer y tu hwnt i 11pm, ond y bydd cerddoriaeth fyw yn dod i ben erbyn 11pm, caiff ei dadreoleiddio ac na ddylai fod yn ystyriaeth.

I grynhoi

Dywedodd Tomos Jenkins ei fod yn lleoliad hwyr yn y nos ar benwythnosau ac y byddai angen elfen o waith gwrth-sain i'r preswylwyr gerllaw o hyd, felly byddai'n gwrthwynebu oriau agor y penwythnos.

Dywedodd y Cynghorydd Wood ei fod yn teimlo nad oedd digon o fanylion yn y cais am sut i gyflawni'r amcanion trwyddedu, ni fyddai am weld unrhyw gerddoriaeth ar ôl 11pm, a dim alcohol ar ôl 11pm ar sail niwsans sŵn.

Dywedodd Mr Brinkworth y byddai sŵn o far gorlawn ac mae hyn yn mynd yn groes i Gynllun Gweithredu Cwmpas Sain gan Lywodraeth Cymru a chynlluniau gweithredu eraill; byddai llawer o gwynion gan breswylwyr ac roedd o'r farn nad yw'r cais wedi dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â mater sŵn.

Ailadroddodd Dr Tamar y newid yn y cais ac nad oedd am 3am mwyach; roedd wedi bod yn hapus i dderbyn yr amodau gan Heddlu De Cymru. Roedd am roi sicrwydd i drigolion lleol a Rheoli Llygredd na fyddai'n chwarae cerddoriaeth y tu hwnt i 11pm yn ystod yr wythnos a 12.30 ar benwythnosau oni bai ei fod wedi gosod gwaith gwrth-sain. O ran sŵn gan bobl sy'n gadael ac ati dywedodd fod y dafarn gyferbyn yn gwerthu alcohol drwy'r dydd a'r nos a bod bwyty hefyd ddau ddrws i ffwrdd sydd wedi'u trwyddedu. Ailadroddodd mai safle bach ydyw ac y byddai bwydlen alcohol gyfyngedig, goruchwylio ar y drysau, tîm rheoli a'r arwyddion gofynnol i helpu i reoli

unrhyw sŵn.  Ychwanegodd hefyd y byddai'n cyfathrebu â thrigolion lleol ac yn delio ag unrhyw faterion a godwyd ar unwaith.

Gwahoddwyd yr Aelodau i ganiatáu'r cais.

PENDERFYNWYD:  Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, CYMERADWYODD yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru, a'r amodau ychwanegol fel y'i hamlinellwyd:

i. Bydd darparu cerddoriaeth wedi'i recordio, perfformiad dawns ac adloniant o ddisgrifiad tebyg yn dod i ben am 23:00 o'r gloch bob dydd;
ii. Dim ond rhwng 08:00 a 21:00 y bydd y casgliad o sbwriel, poteli a deunyddiau ailgylchadwy yn digwydd.

## 11 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 pm